


CADEIRYDD CLWB

1. BETH YW RÔL CADEIRYDD?

Y Cadeirydd sydd yn gyfrifol am redeg y clwb o wythnos i wythnos a chyd-weithio â swyddogion eraill y clwb yn ogystal âg aelodau ac arweinyddion.



2. BETH SYDD YN GWNEUD CADEIRYDD DA AC EFFEITHIOL?

Mae bod yn berson cyfrifol yn allweddol i'r swydd yma! Mi ddylai'r Cadeirydd bod yn brydlon i bob cyfarfod a sicrhau fod barn pob aelod yn cael ei glywed.

3. CANLLAWIAU PWYSIG

- ❖ Mae cyd-weithio yn **hanfodol** rhwng pob swyddog!
- ❖ Dylai'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd weithio yn dda gyda'i gilydd a chadw mewn cysylltiad yn rheolaidd.
- ❖ Dylai'r Cadeirydd helpu'r Ysgrifennydd i gysylltu gyda'r aelodau os oes newid mewn unrhyw drefniadau.
- ❖ Trefnu i gwrdd gyda'r Ysgrifennydd tua chwarter awr cyn y cyfarfod i fynd drwy'r post a.y.y.b.
- ❖ Y Cadeirydd, Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Cofnodion i eistedd o flaen yr aelodau yn y cyfarfod.
- ❖ Dilyn Agenda'r cyfarfod
 1. Ymddiheuriadau
 2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf
 3. Materion yn codi o'r cyfarfod
 4. Gohebiaeth
 5. Adroddiad y trysorydd
 6. Unrhyw fater arall
 7. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf
- ❖ Rhaid i chi benderfynu ar ddechrau'r flwyddyn pwy fydd yn darllen y cofnodion blaenorol allan h.y. yr Ysgrifennydd Cofnodion, Ysgrifennydd neu Cadeirydd. Y Cadeirydd i gofio arwyddo'r cofnodion blaenorol cyn mynd ymlaen a'r cyfarfod.
- ❖ Rhaid sicrhau fod barn pob aelod yn cael ei glywed.
- ❖ Os nad ydych yn gallu mynychu'r cyfarfod, gwnewch yn siŵr bod yr Is-Gadeirydd yn gwybod mewn da bryd mai ef/hi bydd yn cadeirio'r cyfarfod. Sicrhewch bod yr Ysgrifennydd yn gwybod am unrhyw newid sy'n digwydd.
- ❖ Dylai Cadeirydd y clwb fynychu Pwyllgorau Gwaith y Sir.

4. COFIWCH...

